# Ein heffaith yn 2017/18

## Cipolwg

Rhagor o wybodaeth
**www.crisis.org.uk/impact**

Crisis

Gyda'n gilydd byddwn yn rhoi terfyn ar ddigartrefedd

# Cyflwyniad

Rydw i'n falch bod ein gwasanaethau Skylight wedi helpu miloedd o bobl i roi digartrefedd y tu ôl iddyn nhw am byth.

Ar ddiwedd y flwyddyn y buom yn dathlu ein pen-blwydd yn 50 oed, fe wnaethom gyhoeddi *Everybody In: How to end homelessness in Great Britain*. Mae'r cynllun hwn yn benllanw blwyddyn o waith yn dadansoddi tystiolaeth, o gartref a thramor, i ddangos sut gallwn roi diwedd ar ddigartrefedd mewn 10 mlynedd.

Ein swyddogaeth ni yw gwneud cymaint ag y gallwn drwy ein gwasanaethau ein hunain, a thrwy weithio gyda'r sector a llywodraethu lleol a chenedlaethol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban i esgor ar newid.

Mae gennym ni'r atebion i roi diwedd ar ddigartrefedd am byth, a nawr rydym yn dechrau ein strategaeth newydd. Mae'n uchelgeisiol, ond mae'n rhaid i ni fod yn uchelgeisiol. Allwn ni ddim eistedd yn ôl a derbyn digartrefedd yn yr unfed ganrif ar hugain ym Mhrydain. Gyda'n gilydd, fe wnawn ni roi diwedd arno.

**Jon Sparkes,**
**Prif Weithredwr**






Yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf, oherwydd y galw am hynny, rydyn ni wedi ehangu ein sefydliad a'n gallu i gefnogi pobl. Yn ystod y pum mlynedd nesaf, rydyn ni'n benderfynol o sicrhau ein bod yn canolbwyntio ein hymdrechion ar newid sy'n barhaol.

Ym mhob un o ganghennau Crisis Skylight, rydyn ni'n adeiladu ar ein llwyddiant a'n harbenigedd presennol er mwyn rhoi diwedd ar ddigartrefedd i gymaint o bobl â phosibl. Drwy ymgyrchu a gwneud gwaith polisi, byddwn yn canolbwyntio ar y meysydd a fydd yn cael yr effaith fwyaf ar roi diwedd ar ddigartrefedd, gan gynnwys ei atal yn y lle cyntaf. Ein prif flaenoriaeth fydd creu diwygiadau sy'n atal digartrefedd.

Yn bennaf oll, bydd popeth rydyn ni'n ei wneud yn seiliedig ar brofiadau a gwybodaeth pobl sydd â phrofiad o ddigartrefedd, a bydd hyn yn hollbwysig i sicrhau ein llwyddiant.

Drwy gyfuno ein hymdrechion ym mhob ffordd bosib, gallwn gael yr wybodaeth, yr atebion a'r grym i roi diwedd ar ddigartrefedd ym Mhrydain am byth.

**Steve Holliday,**
**Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr**






# Everybody In: How to end homelessness in Great Britain

Yn yr 21ain ganrif ym Mhrydain, fy ddylai pawb gael rhywle i fyw. We wnaethom gyhoeddi *Everybody In: How to end homelessness in Great Britain*. Mae'r cynllun hwn yn benllanw blwyddyn o waith yn dadansoddi tystiolaeth, o gartref a thramor, i ddangos sut gallwn roi diwedd ar ddigartrefedd mewn 10 mlynedd.

Cafodd y cynllun ei greu drwy ddefnyddio adolygiad helaeth o'r dystiolaeth orau ledled y byd ac ymchwil newydd gan sefydliadau ac academyddion blaenllaw; ac fe ymgynghorwyd â dros 1,000 o arbenigwyr ynghylch atebion.

Fe wnaeth y panel Arbenigwyr drwy Brofiad, sef gwirfoddolwyr â phrofiad uniongyrchol o ddigartrefedd, chwarae rôl allweddol yn natblygiad y cynllun *Everybody In: How to end homelessness in Great Britain*.

"Mae Crisis wedi'n herio ni i weithredu ac mae'r atebion er mwyn gwneud newidiadau sy'n barhaus wedi'u cynnwys yn y cynllun hwn."

**Dame Louise Casey, Cadeirydd, Sefydliad Digartrefedd y Byd**

"Ein tasg fwyaf ar y Panel Arbenigwyr drwy Brofiad oedd adolygu'r cynllun i roi diwedd ar ddigartrefedd, llunio argymhellion polisi, eu rhoi mewn trefn blaenoriaeth a saernïo'r iaith er mwyn sicrhau eu bod yn cwmpasu'r holl negeseuon y mae pobl sydd â phrofiad uniongyrchol eisiau eu cyfleu."

**Ash, Y Panel Arbenigwyr drwy Brofiad**

## Fe wnaeth

# 11,356

## o bobl ddefnyddio gwasanaethau gydol y flwyddyn Crisis

Drwy gydol y flwyddyn, fe wnaethom gefnogi 11,356 o bobl i gyd, ac o'r rhain fe wnaethom weithio'n fwy dwys gyda 6,079 o bobl i'w helpu nhw i ailadeiladu eu bywydau a rhoi digartrefedd y tu ôl iddynt am byth.

"Fe wnes i gwrdd â Crisis pan oeddwn yn byw mewn llety â chymorth. Fe wnes i lawer o gyrsiau, cael cymwysterau a datblygu fy sgiliau cyfweliad a llunio CV. Rydw i'n hapus gyda fy nhenantiaeth, rydw i mewn swydd rydw i wrth fy modd â hi ac mae fy mywyd wedi cael ei drawsnewid. Rydw i'n teimlo'n lwcus iawn. Mae llawer o bobl yn dal yn wynebu heriau fel y rhai roeddwn i'n eu hwynebu bob dydd."

**Viki,**
**Crisis Skylight Caeredin**



# Cafodd

# 832

## o bobl eu helpu i gael cartref

Ac mae sefyllfa 1,128 o bobl o ran tai wedi gwella yn sgil gwasanaethau Crisis, sy'n helpu pobl ddigartref i ddod o hyd i gartref sefydlog a'i gadw.



"Roedd cwrs 'Renting Ready' Crisis yn wych! Roedd o mor ddiddorol. Rydw i'n deall beth yw cytundeb tenantiaeth nawr. Am y tro cyntaf, dechreuais ddeall nad oeddwn i'n gwneud dim o'i le ac nad fy mai i oedd pethau.

"Rydw i yn y coleg yn astudio iechyd a gofal cymdeithasol nawr. Ar rydw i'n byw yn fy fflat fy hun hefyd. Mae'n hyfryd! Alla i ddim esbonio sut rydw i'n teimlo – mae fel petai yna swigod y tu mewn i mi. Rydw i'n teimlo fy mod i wedi dechrau fy mywyd eto."

**Sharon,**
**Crisis Skylight Croydon**

Cafodd

# 784

## o bobl eu helpu i gael gwaith

Rydyn ni wedi helpu pobl i ganfod a chadw swyddi, sy’n helpu eu sefydlogrwydd a’u lles yn gyffredinol.



“Fe wnaeth fy anogwr swyddi fy helpu i gyda gweithdai llunio CV a gweithdai symbylu. Dechreuais ddod allan o fy nghragen, a chael cyfweliadau am swyddi. Dechreuais ddod yn fwy annibynnol.”

**Con,**
**Crisis Skylight Llundain**

Mae gan Con swydd amser llawn fel gweithiwr cymorth dan hyfforddiant erbyn hyn, ac mae wedi ymrwymo i helpu pobl eraill sy’n wynebu digartrefedd.

## Mae **1,432** o bobl wedi ennill cymwysterau

...ac fe gafodd 3,223 o gymwysterau eu dyfarnu.

Mae ein hystod o gyrsiau a dosbarthiadau wedi helpu pobl i ddatblygu sgiliau, dod yn ôl i drefn a chael synnwyr o bwrpas.

"Mae cymwysterau yn grymuso pobl ac yn rhoi'r sgiliau a'r hyder iddynt fynd ymlaen i gael cyflogaeth ac addysg bellach, ac i wirfoddoli. Mae'n rhan o'r gwaith o helpu pobl ar eu taith i adael digartrefedd.

"P'un ai a yw hynny ym maes llythrennedd, rhifedd, TG, Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill, arlwyo neu beintio ac addurno, gall cymryd perchnogaeth dros eu dysgu helpu pobl i gymryd perchnogaeth dros eu bywydau. I rywun digartref, gall mynd ar gwrs ei helpu i gael bywyd â mwy o strwythur iddo.

"P'un ai a yw hynny ym maes llythrennedd, rhifedd, TG, Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL), arlwyo neu beintio ac addurno, gall cymryd perchnogaeth dros eu haddysg helpu pobl i gymryd perchnogaeth dros eu bywydau. I rywun ddigartref, gall mynd ar gwrs ei helpu i gael bywyd â mwy o strwythur iddo.

**Veena,**
**Rheolwr Dysgu Achrededig,**
**Crisis Skylight Llundain**



# 11,704

## o wirfoddolwyr

Mae miloedd o bobl wedi rhoi o'u hamser yn hael i helpu pobl ddigartref, drwy wirfoddoli gyda'n gwasanaethau gydol y flwyddyn, yn ein siopau ac yn ein canolfannau Nadolig.



"Cyn i mi wirfoddoli, doeddwn i ddim yn sylweddoli faint o bobl oedd yn ddigartref.

"Y peth cyntaf wnes i oedd helpu mewn digwyddiad Nadolig. Wedyn fe wnes i ddechrau helpu mewn dosbarthiadau Saesneg a dosbarthiadau darllen, ac rydw i'n helpu mewn dosbarth coginio erbyn hyn. Rydw i wrth fy modd.

"Po fwyaf o ddosbarthiadau rydw i'n eu gweld, y mwyaf rydw i'n sylweddoli pa mor wych yw'r rhaglen addysg – dyma y mae ei angen ar bobl. Maen nhw fel grisiau ar ysgol.

"Rydw i'n hoffi helpu pobl ac mae pobl yn bwysig i mi. Weithiau, gall cael sgwrs gyda phobl wneud gwahaniaeth. "

**Gwen, gwirfoddolwr, Crisis Skylight Glannau Mersi**



# Ymrwymiadau gwleidyddol newydd i fynd i'r afael â digartrefedd

## Yn Lloegr:

Ar y cyd ag ymgyrchwyr Crisis, fe wnaethom ni sicrhau £20 miliwn yng Nghyllideb yr Hydref ar gyfer prosiectau 'Help to Rent' yn Lloegr, i helpu i gefnogi pobl ddigartref, tenantiaid agored i niwed a'u landlordiaid drwy'r ymgyrch '*Home, No Less Will Do*'.

"Rydw i'n gobeithio y bydd y Llywodraeth yn ystyried cynllun 'Help to Rent' gwych Crisis yn ofalus, i helpu mwy o bobl i gael tenantiaeth ddiogel, i dawelu meddyliau landlordiaid, ac yn ystyried cynnwys hynny yn y Gyllideb."
**Rt Hon James Brokenshire, MP, Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol**

Ym mis Mai 2018, fe wnaeth y llywodraeth ymrwymo £28 miliwn i gynllun peilot Tai yn Gyntaf (cynllun sy'n helpu pobl ag anghenion cymhleth) ym Manceinion Fwyaf, Dinas-ranbarth Lerpwl a Gorllewin Canolbarth Lloegr.

## Yn yr Alban:

Gofynnodd Llywodraeth yr Alban i Jon Sparkes, Prif Weithredwr Crisis, gadeirio'r Grŵp Gweithredu Digartrefedd a Chysgu ar y Stryd. Fe wnaeth y grŵp 70 o argymhellion – ac mae pob un o'r rhain wedi cael eu derbyn mewn egwyddor gan Lywodraeth yr Alban.

"Ein huchelgais yw rhoi diwedd ar ddigartrefedd yn yr Alban, a dylai fod yn uchelgais gan lywodraethau ym mhob man."
**Prif Weinidog yr Alban, Nicola Sturgeon MSP**

# Mae angen Everybody In i roi diwedd ar ddigartrefedd

Fe wnaeth miloedd o bobl ymuno ag ymgyrch Everybody In ac ysgrifennu at eu gwleidydd i ddweud pam maen nhw eisiau **#EndHomelessness**.

"Rydw i mewn i roi diwedd ar ddigartrefedd oherwydd rydw i wedi bod yn y sefyllfa honno ddwywaith. Mae gormod o bobl yn byw mewn tlodi a dim ond un peth mae'n ei gymryd i droi'r drol a cholli bob dim."

**Anhysbys, Swydd Stafford**

"Rydw i mewn i roi diwedd ar ddigartrefedd oherwydd dylai bawb gael cartref – mae'n hawl sylfaenol."

**Anhysbys, Llansteffan**

"Rydw i mewn i rhoi diwedd ar ddigartrefedd oherwydd mae angen i ni wneud mwy yn yr oes sydd ohoni. Ddylai digartrefedd ddim bod yn digwydd."

**Anhysbys, Dunstable**

"Rydw i mewn i roi diwedd ar ddigartrefedd oherwydd mae pawb yn haeddu cael lle i'w alw'n gartref."

**Anhysbys, Glasgow**

# Mae lles

# 2,556

## o bobl wedi gwella

Fe wnaethom ni gynnig amryw o ddosbarthiadau, gweithgareddau cymdeithasol, hyfforddiant un-i-un a mynediad at wasanaethau iechyd, er mwyn helpu i wella iechyd a lles pobl.



"Mae cymorth un-i-un yn hollbwysig. Rydyn ni'n gweithio gyda'n gilydd i bennu nodau ac yn eu helpu nhw i'w cyflawni ar hyd y ffordd. Rydyn ni'n helpu i gyfeirio pobl at wasanaethau eraill hefyd.

"Mae llawer o bobl wedi'u difreinio a dydy pobl ddim yn gwrando arnynt, felly rydyn ni'n gallu rhoi lle diogel iddyn nhw siarad, ac ysbrydoli gobaith i bobl hefyd. Mae ein drws ni ar agor i bobl bob amser.

**Claire,**
**Cydlynydd Iechyd Meddwl,**
**Crisis Skylight Glannau Mersi**

**Cafodd**

# 614

**o bobl gymorth i'w hatal nhw rhag bod yn ddigartref**



"Yn Crisis Skylight Newcastle, rydyn ni'n gweithio mewn partneriaeth â'r cyngor a'r Ganolfan Byd Gwaith fel rhan o'r Cynllun Blaengar ar gyfer Atal Digartrefedd yn Newcastle.

"Mae'r prosiect yn canolbwyntio ar atal a pheidio â gadael i bobl sy'n wynebu digartrefedd cudd – er enghraifft, cysgu ar soffas a chrwydro o un lle i'r llall – ddirywio nes eu bod ar y stryd.

"Rydyn ni'n gweld pobl yn cael mynediad at wasanaethau efallai na fyddant wedi gallu cael mynediad atynt o'r blaen. Mae'n ddull cryf iawn o atal digartrefedd ar y stryd."

**James, Anogwr Cynnydd, Crisis Skylight Castell Newydd**

# 4,194

## o westeion Nadolig

Dim ond megis dechrau cael pobl i roi digartrefedd y tu ôl iddyn nhw mae digwyddiad Nadolig Crisis.



"Fe es i un o ganolfannau Nadolig Crisis, a dyna sut dechreuais i ymwneud â Crisis. Dyma'r peth gorau sydd wedi digwydd i mi erioed.

"Mae Sarah, fy anogwr cyflogaeth, wedi bod yn hollol wych efo fi. Roeddwn i mor negyddol, yn meddwl 'wna i byth gael swydd'. Ond mi ddywedodd hi y gallwn i wneud hynny. Fe helpodd fi i gael swydd mewn gwesty.

"Mae gen i swydd amser llawn erbyn hyn. Rydw i'n byw ar fy mhen fy hun mewn fflat hyfryd ag un ystafell wely."

**Samantha, Gwestai Nadolig ac aelod o Crisis**

# 317 aelod wedi gwirfoddoli



Mae cleientiaid Crisis, a elwir yn aelodau, wedi bod yn rhan o'n gwaith mewn amryw o ffyrdd ystyrlon. Er enghraifft, ein helpu ni i lunio gwasanaethau, recriwtio staff a datblygu ein strategaeth, yn ogystal â siarad mewn digwyddiadau a chyfrannu at ddatblygiad *Everybody In: How to end homelessness in Great Britain*.

"Ers i mi fod yn gweithio gyda Crisis, ac ers i Crisis fod yn gweithio gyda fi, rydw i wedi bod yn magu hyder. Roedd yn brofiad anhygoel adrodd y gerdd ar gyfer Diwrnod Digartrefedd y Byd ar ben y bryn.

"Rydw i hefyd yn gwirfoddoli gyda chlwb celf a chrefft Crisis, ac yn y prynhawn galw heibio am gyngor. Rydw i'n mwynhau gwneud hynny."

**Adel,**
**Crisis Skylight De Cymru**

Cymerodd

# 137

## o bobl ran yn rhaglenni hyfforddiant Crisis ar gyfer caffis ac adwerthu

Fe wnaethom ni ddarparu hyfforddiant ymarferol yn y gwaith ar safleoedd Caffi Crisis a Siop Crisis, sy'n gallu arwain at yrfaoedd ym meysydd lletygarwch, arlwyo acadwerthu.



"Fe wnes i ymgymryd â rhaglen hyfforddiant mewn adwerthu Crisis – llwyddais i'w chwblhau a nawr mae gen i dystysgrif. Rydw i wedi bod yn gwirfoddoli ers hynny, rydw i wrth fy modd gyda'r staff a'r siop.

"Roedd gwneud y rhaglen hyfforddiant yn golygu y gallwn i fynd i gael swydd mewn tafarn, a gwneud cais am swyddi eraill. Rydw i wedi cael cynnig swydd newydd gydag asiantaeth arlwyo."

**Hephzibah,**
**Crisis Skylight Llundain**




# Mae 14% o'n staff wedi profi digartrefedd yn uniongyrchol

"Cefais fy magu mewn teulu afreolus a di-drefn. Ers oeddwn yn 16, roeddwn yn ddigartref, yn gaeth i gyffuriau ac ar goll mewn cylch o anhrefn.

““Pan oeddwn yn 35, fe gymerais y gefnogaeth a gafodd ei chynnig i mi. Bryd hynny, roeddwn i'n rhannu tŷ, ac fe wnes i gwrs llythrennedd a rhifedd i oedolion.

"Rydw i nawr yn gweithio fel anogwr cynnydd gyda Crisis. Rydw i'n helpu pobl ddigartref i ddechrau'r broses o newid a symud ymlaen.

"Yn 48 oed, mae gen i deulu a morgais. Mae gen i fy hun hefyd; fy hunangred a fy meddylfryd cadarnhaol – rwy'n gwybod fy mod i'n hoffus ac yn alluog."

**Liam, Anogwr Cynnydd, Crisis Skylight Rhydychen**



# Atebion blaengar o ran tai

Y llynedd, fe wnaethom ni helpu 442 o sefydliadau i wella'r hyn maen nhw'n ei gynnig i bobl ddigartref o ran tai.



Rydyn ni'n gweithio gyda landlordiaid i sicrhau cyflenwad o lefydd i fyw – yn uniongyrchol a drwy'r prosiectau rydyn ni'n eu cefnogi ledled Prydain.

Mae hyn hefyd wedi cynnwys cynorthwyo mudiadau lleol i wella mynediad at lety, a bod yn rhan o grŵp cynghori'r Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol ar gyfer y sector rhentu preifat.



# Cefnogwyr anhygoel

Mae miloedd o bobl, cwmnïau ac ymddiriedolaethau wedi cefnogi ein gwaith yn ystod y flwyddyn, sy'n golygu ein bod yn gallu datblygu a darparu gwasanaethau i helpu pobl ar eu taith i roi digartrefedd y tu ôl iddyn nhw.

"Rydyn ni mor falch o ymdrechion partneriaid a chefnogwyr Crisis sydd wedi'n helpu ni i gynyddu ein hincwm yn sylweddol er mwyn sicrhau ein bod yn gallu rhoi diwedd ar ddigartrefedd."

**Richard Lee,**
**Cyfarwyddwr Codi Arian**

"Mae hi wedi bod yn wych gweld sut mae pobl ym mhob cwr o'r wlad wedi cefnogi'r bartneriaeth hon, a gweld yn uniongyrchol y gwahaniaeth rydyn ni'n ei wneud i fywydau pobl. Rydyn ni'n edrych ymlaen at y ddwy flynedd nesaf yn gweithio gyda'n gilydd i roi diwedd ar ddigartrefedd unwaith ac am byth."

**JLL,**
**Partner corfforaethol Crisis**

# Gwnewch eich rhan a helpu i roi diwedd ar ddigartrefedd



Cyfrannu



Ymgyrchu




Gwirfoddoli



Codi arian

www.crisis.org.uk/get-involved




# Dylai pawb gael rhywle i'w alw'n gartref.

Gyda'n gilydd, gwyddom y gallwn roi diwedd ar ddigartrefedd. Ond mae angen Everybody In i wneud i hynny ddigwydd. Ydych chi mewn?

Gallwch wneud safiad yn erbyn digartrefedd:
**www.crisis.org.uk/EverybodyIn**
**#EndHomelessness**

**Cipolwg yn unig yw hwn.**

Rhagor o wybodaeth:
**www.crisis.org.uk/impact**

Crisis UK (yn masnachu fel Crisis). Rhifau Elusen Cofrestredig: E&W1082947, SC040094.
Rhif y Cwmni: 4024938. CRI0110_WELSH